



Torfaen Business Voice

Llais Busnes Torfaen



<http://bit.ly/twitter-TorfaenBizCymru>





<http://bit.ly/Facebook-TorfaenBiz>



<http://bit.ly/youtube-TorfaenBiz>

MAI 2021

**Cyfarfodydd Rhithwir Nesaf:
24ain Mehefin, 4.30pm**



**DEWCH I YMUNO
Â'R CLWB!**

Aelodaeth ar-lein Llais Busnes Torfaen am
£18.00 am weddill 2021.

<http://bit.ly/llais-busnes-torfaen>



NODIADAU'R CADEIRYDD

Wrth i'r cyfyngiadau clo lacio, rwy'n sir bod nifer ohonom ni'n ceisio rhagweld pa olwg fydd ar y dirwedd fusnes yn y dyfodol. A fyddwn ni'n dychwelyd i swyddfydd a chyfarfodydd go iawn gyda chleientiaid a chydweithwyr? Beth yw'r cyfleoedd? Beth yw'r risgiau? Sut fydd angen i'n busnesau addasu?

Wel, i helpu, rydym wedi trefnu i'r Dr Paul T Thomas, sylfaenydd DNA Global Solutions, cymrawd yn ysgol fusnes Sheffield Hallam a siaradwr a gydnabyddir yn rhyngwladol ar reoli busnesau, i agor ein cyfarfod



Ashley Harkus

Cadeirydd,
Llais
Busnes
Torfaen

rhwydweithio rhithwir nesaf ar 24ain Mehefin 2021. Disgrifir Paul fel rhywun sy'n "gwneud y cymhleth yn syml" ac rydym yn ddiolchgar ei fod wedi cytuno i rannu ei brofiadau gyda ni.

Rydym wedi lansio pecyn aelodaeth ar-lein newydd ar gyfer gweddill ein cyfarfodydd yn 2021 ar gost gyfyngedig o £18 gyda chyfran o hynny'n mynd at gefnogi elusen leol a fydd yn cael ei dewis gan yr aelodau. Mae manylion ar sut i ymuno yn y cylchlythyr hwn. Yn ogystal â'n siaradwr bydd digon o gyfle i siarad am eich busnes mewn grwpiau llai. Ein bwriad yw newid grwpiau cymaint ag sy'n bosibl o fewn yr amser.

Yn y dyfodol, bydd gennym gyfarfodydd ym Medi a Thachwedd a fydd yn parhau ar-lein am y tro ac a fydd, gobeithiwn, yn rhoi cyfle i chi sgwrsio â busnesau eraill mewn ffordd gyfleus a diogel.

DOD YN AELOD

30/09/21 - Llais Busnes Torfaen Ar-lein - 4:30pm

25/11/21 - Llais Busnes Torfaen Ar-lein - 4:30pm

Torfaen Business Voice Llais Busnes Torfaen



**Cyfarfodydd Rhithwir Nesaf:
24ain Mehefin, 4.30pm**

<http://bit.ly/llais-busnes-torfaen>



TUDALEN 4

Rhaglen Gwella
Cynhyrchedd

TUDALEN 5

Mae Green & Co,
Cyfrifwyr a Chynghorwyr
Treth

TUDALEN 6

Marchnad Pont-y-pl
- Rhowch Dro Ar Eich
Busnes

TUDALEN 7

Ydych Chi'n Chwilio
Am Arian I Gefnogi Eich
Anghenion Busnes?

VIRTUAL GUEST SPEAKER, DR PAUL THOMAS

Ein siaradwr, Doctor Busnes BBC Wales, Dr Paul Thomas ar gyfer ein **Cyfarfod Rhithwir fis Mehefin, 24ain Mehefin, 4.30pm** gan gynnwys ystafelloedd torri allan ar gyfer rhwydweithio – dewch i wrando ar Paul yn rhannu peth o’i brofiad byd-eang wrth greu, rheoli a herio sut mae sefydliadau’n ymddwyn a sut all hyn wneud iddyn nhw weithredu mewn ffyrdd mwy dynol.

Gyda chyfuniad o ymchwil, arferion ymarferol a rhaglenni addysgol i uwch reolwyr, mae ei feddylfryd yn syml: herio’r ffordd mae pethau’n cae eu gwneud.

Mae Paul yn defnyddio’i ymchwil academiaidd ac ymarferol, yn gymysg â’i brofiad i siarad am

- **Rhoi Angerdd i Arweinyddiaeth eto**
- **Arweinyddiaeth ar gyfer y Waelodlin**
- **Pobl, Perchnogaeth, Gwarantedig**
- **Dangos Arweinyddiaeth uwchben Rheolaeth**

Mae e’n gweithio ar hyn o bryd, gyda’i dîm, i helpu sefydliad ariannol mawr i newid a thrawsnewid mewn amgylchedd cyfnewidiol gyda thechnoleg. Ef yw Crëwr elusen Fitness Ventures, High Street Fitness ac mae’n Athro gwadd mewn nifer o Brifysgolion yn y Swistir, Paris, Llundain, Cymru a siaradwr ar Raglen Arweinyddiaeth 20/20 ym Mangor a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd.



Ddim yn aelod? Pam na ymunwch â ni ar-lein, aelodaeth am £18.00 gan gynnwys TAW am weddill 2021. Ymunwch nawr!



Ewch i: <http://bit.ly/SouthWalesBusiness> am wybodaeth bellach.

Dolenni Fideo Dolenni:

Dosbarth Meistr Prifysgol 2014
<http://youtu.be/cjOHmlwZ5Vw>

Cyfweliad gyda’r Dr Paul Thomas 2012
<http://youtu.be/TiKwUX3Cm-8>

Cyflwyniad Cyngor Chwaraeon gyda’r Arglwydd Coe 2013: <http://youtu.be/HwDLs-JJ14M>

CYMORTHFEYDD AR-LEIN CEFNOGAETH UN WRTH UN I FUSNESAU:



Economy & Enterprise
Torfaen – inspiring business innovation
Economi a Mentergarwch
Torfaen - hybu arloesi mewn busnes

Yn dilyn cyflwyno’r digwyddiadau ar-lein yma’n llwyddiannus dros y misoedd diwethaf bydd y digwyddiadau yma’n parhau i fynd rhagdynt. Gall unrhyw fusnes cyfredol neu gychwynol neilltuo ymgynghoriad cyfrinachol am ddim am 20 munud gydag aelodau o’r tîm cefnogi busnes yn y cymorthfeydd misol yma. Am ragor o wybodaeth ac i gadw lle, cliciwch ar y dyddiadau isod

Dydd Iau 27 Mai: <http://bit.ly/Thursday-27-May>

Dydd Iau 24 Mehefin <http://bit.ly/Thursday-24-June>

Dydd Iau 22 Gorffennaf: <http://bit.ly/Thursday-22-July>





NAWR YW EICH CYFLE BUSNES GWEITHGYNHYRCHU I'CH YMUNO Â'N RHAGLEN GWELLA CYNHYRCHEDD

Lansiwyd Rhaglen Gwella Cynhyrchedd Llywodraeth Cymru yn Nhorfaen tuag at ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, ar ôl llwyddiant eang mewn ardaloedd eraill.

Rydym yn falch o gyhoeddi bod dros ddwsin o fusnesau wedi cymryd y camau i gynyddu effeithlonrwydd, datblygu cynhyrchion newydd ac archwilio marchnadoedd newydd yn eu busnesau yn Nhorfaen.

A ydych chi'n barod i wneud yr un peth?

Neilltuir Rheolwr Perthynas ac Arbenigwr Arloesi yn Llywodraeth Cymru i bawb sy'n cymryd rhan yn y cynllun, i helpu i adolygu gwella cynhyrchiant a'u cefnogi trwy'r broses ymgeisio sy'n ystyriol iawn o fusnesau.

Darperir cyngor gweithgynhyrchu arbenigol trwy ymgynghoriaeth cynhyrchiant wedi'i ariannu, sydd eisoes wedi helpu busnesau bach a chanolig gyda chynngor ynghylch cynlluniau ffatri, awtomeiddio a digideiddio, heriau gweithgynhyrchu technegol a gofynion marciau ansawdd.

Diogelwch ddyfodol eich busnes

Os ydych chi'n fusnes gweithgynhyrchu wedi'i leoli yn Nhorfaen a hoffai archwilio'r rhaglen hon ymhellach, e-bostiwch: info@southwalesbusiness.co.uk
Byddwn hefyd yn cynnal clinig Rhithwir (gweler isod am fanylion ar sut i archebu) a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y rhaglen: <http://bit.ly/SMART-Innovation>


Os ydych chi'n fusnes gweithgynhyrchu yn Nhorfaen sydd eisiau:

Cynyddu Effeithlonrwydd, Datblygu Cynhyrchion Newydd, Archwilio marchnadoedd newydd, yna Rhaglen Gwella Cynhyrchiant Torfaen yw'r Rhaglen i chi!

Ymunwch â ni ar 17 Mehefin 2021 o 16.30 tan 17.30 i gael gwybod mwy

Yn rhithiol ar-lein Llwyfan Microsoft Teams i Fusnesau yn Nhorfaen
Bydd y Rhaglen yn cynnig **pecyn cymorth** o gyllid posibl ar gyfer gwariant cyfalaf mewn technolegau newydd.

Archebwch eich lle yma : <http://bit.ly/book-your-place-here>



MAE GREEN & CO, CYFRIFWYR A CHYNGHORWYR TRETH

Mae Green & Co, Cyfrifwyr a Chynghorwyr Treth yn cymryd cipolwg ar newidiadau sylfaenol ers dechrau'r flwyddyn:

Brexit - Gyda diwedd cyfnod pontio Brexit ar 31 Rhagfyr 2020, cafwyd amrywiaeth o reolau a rheoliadau masnach newydd sy'n berthnasol i fusnesau sy'n masnachu gyda'r UE. Mae angen i gwmnïau ddilyn rheolau newydd ar allforion, mewnfurion, tollau, data a chyflogi. Mae newidiadau TAW yn cynnwys - TAW mewnfurio'n ddyledus ar nwyddau i gyd ac mae cyfrifon ar gyfer TAW wedi eu gohirio tan 1 Gorffennaf 2021. Dylid gosod TAW cyflenwi'r DU ar lwythi llai na £135 ar y pwynt gwerthu yn hytrach na TAW mewnfurio'r DU. Mae Rhyddhad Llwythi Gwerth Isel (LVCR) wedi cael ei ddiddymu, ac mae allforion i'r UE ar gyfradd sero at ddibenion TAW.

Cynlluniau Benthyciadau Adferiad - Cyhoeddodd Cyllideb 2021 gynllun benthyciadau olynol i gynorthwyo adferiad busnesau ar ôl COVID-19. Dechreuodd y Cynllun Benthyciadau Adfer ar 6 Ebrill 2021 a bydd yn mynd tan 31 Rhagfyr 2021, gan roi cefnogaeth barhaus i fusnesau'r DU. Mae benthyciadau ar gael trwy rwydwaith o fenthycwyr achrededig a restrir ar wefan Banc Busnes Prydain. Bydd angen i chi ddangos y byddai'ch busnes yn ddichonol pe na bai am y pandemig, ei fod wedi ei effeithio'n andwyol gan y pandemig ac nid oes achos methdaliad yn ei erbyn. Mae hyd at £10 miliwn ar gael i bob busnes gyda gwarant o 80 % gan y llywodraeth i fenthycwyr. Ni fydd disgwyl i chi lofnodi gwarant

personol ar fenthyciadau hyd at £250,000, ac nid ellir defnyddio cartref preifat y sawl sy'n benthyc fel ernes.

Cynlluniau cymorth COVID-19 - Yn ôl y disgwyl, cafodd y prif gynlluniau cymorth COVID-19, y Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws (CCSC) a'r Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth (CCIH), eu hystyng yn y Gyllideb tan 30 Medi 2021. Mae amodau cymhwyster ar gyfer camau pedwar a phump grantiau CCIH wedi newid yn sylweddol, felly rydym yn cynghori eich bod yn gwirio'r meini prawf. Gall y rheiny a gollodd y tri grant cyntaf fod yn gymwys nawr. Mae treth ar y grantiau, a dylech eu cynnwys yn eich incwm am y flwyddyn.

Uwch-ddidynnu - Pennawd allweddol o Gyllideb 2021 oedd yr 'uwch-ddidynnu' newydd i gwmnïau cyfyngedig i hybu buddsoddiad. Bydd cwmnïau sy'n buddsoddi mewn offer a pheiriannau newydd rhwng 1 Ebrill 2021 tan 31 Mawrth 2023 yn gallu hawlio lwfans cyfalaf uwch-ddidynnu o 130% a lwfans blwyddyn gyntaf o 50% ar gyfer asedau cyfradd arbennig cymwys. Bydd yr uwch-ddidynniad yn galluogi cwmnïau i dorri eu biliau treth hyd at 25c ar gyfer pob £1 y maen nhw'n buddsoddi.

Mae newidiadau eraill yn cynnwys IR35 a'r Tâl Gwrthdro Domestig ar gyfer y diwydiant adeiladu. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r uchod, byddai Green & Co yn hapus o fedru helpu trwy mail@greenandco.com neu **01633 871122**.



POBL YNG NGHYMRO SY'N METH GWEITHIO GARTREF YN CAEL EU HANNOG I DDEFNYDDIO HUNAN-BROFION LLIF UNFFORDD

Mae'r rheini sy'n methu gweithio gartref yn cael eu hannog i gael pecynnau hunan-brofi dyfeisiau llif unffordd wrth iddynt gael eu cyflwyno ar draws Cymru.

Bydd y pecynnau profi cyflym ar gyfer y coronafeirws ar gael i'w casglu o safleoedd profi lleol ledled Cymru – eich safle lleol yw **Maes Parcio'r Hen Felin, Pont-y-pl o 8am tan 1pm pob dydd**

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried yr opsiwn i allu casglu'r pecynnau profi hyn o leoliadau eraill, yn ogystal â'r opsiwn o'u hanfon yn uniongyrchol i gartrefi pobl.

Y gobaith yw y bydd sicrhau bod mwy o brofion llif unffordd ar gael yn golygu bod profion asymptomatiig

rheolaidd ar gyfer y coronafeirws yn fwy cyfleus a hygyrch i bobl nad ydynt yn rhan o gynlluniau profi presennol mewn gweithleoedd, lleoliadau gofal plant, ysgolion, colegau a phrifysgolion.

<http://bit.ly/Manylion-llawn-yma>



MARCHNAD PONT-Y-PL – RHOWCH DRO AR EICH BUSNES

Mae marchnadoedd Pont-y-pl bob amser yn chwilio am fasnachwyr brwdfrydig sy'n ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a phrofiad siopa amrywiol i gwsmeriaid yng nghanol Pont-y-pl.

Mae gan farchnad dan do Pont-y-pl lawer o unedau ar rent, o unedau ar lwyo â systemau awyru i stondinau achlysurol sy'n cynnig hyblygrwydd i fasnachwyr. Mae prisiau rhent yn fforddiadwy ac yn gystadleuol, a gall busnesau newydd elwa o'n cyfleoedd i arbrofi yn y byd masnachu gyda gostyngiad o hyd at 30% mewn rhenti am y chwe mis cyntaf.

I gael mwy o wybodaeth am fasnachu yn y farchnad cysylltwch â Rheolwr y Farchnad ar **01495 742757, e-bostiwrch: pontypoolindoormarket@torfaen.gov.uk**



PONTYPOOL • PONT-Y-PŴL



MARKET MARCHNAD

CARGO INTERIORS O DORFAEN YN LANSIO COLUR BUG FOR MEN

Mae perchennog busnes dylunio swyddfa yn Nhorfaen wedi lansio ystod o golur newydd ar gyfer dynion o'r enw BUG for Men. Sicrhaodd Cargo Interiors Limited o Gwmban, micro fenthyciad o £50,000 gan Fanc Datblygu Cymru i gefnogi lansiad y colur. Wedi'i sefydlu yn 2019 gan y Rheolwr Gyfarwyddwr Carl Gough, penderfynodd y cwmni dylunio ac adeiladu swyddfeydd lansio elfen newydd ar gyfer eu busnes yn dilyn pandemig Covid 19.

Meddai Carl: "Daeth yn amlwg yn ystod y cyfnod clo cyntaf yn 2020 bod y ffordd rydym yn gweithio yn mynd i newid yn sylfaenol. Edrychais i mewn i fylchau yn y farchnad lle gallwn ddefnyddio fy sgiliau presennol a phenderfynais lansio ein brand colur BUG for Men."

Mae BUG for Men yn gweithredu ochr yn ochr â'i fusnes dylunio ac adeiladu swyddfeydd presennol,

sydd wedi gweld cynnydd diweddar yn y galw am wasanaethau wrth i fusnesau ail-ddylunio eu gofod swyddfa ar gyfer y byd ôl-bandemig.

Darllenwch fwy am y stori hon -

<http://bit.ly/BUG-for-men>



YDYCH CHI'N CHWILIO AM ARIAN I GEFNOGI EICH ANGHENION BUSNES?



Mae Banc Datblygu Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen - Tîm Economi a Menter yn falch iawn o gynnal Clinig Cymorth Busnes o 10.00 - 14:00 ar y dyddiad canlynol:

Dydd Iau 8 Gorffennaf 2021

Clinig Cymorth Busnes Rhithiol Ar-lein

Fel cynrychiolwyr lleol rydym yn ymroddedig i sicrhau bod y busnesau rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn sicrhau'r cyllid a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw i helpu gyda chostau cychwynnol neu i dyfu eich busnes presennol. Yn y sesiwn, gallwch ddarganfod mwy am gefnogaeth leol sydd ar gael ar gyfer eich busnes. Gan weithio gyda'n gilydd gallwn ddarparu cyllid i ddechrau neu ehangu busnes, gan eich cefnogi gydag arian er mwyn prynu offer newydd neu hyd yn oed brynu busnes.

P'un a ydych chi'n fusnes sy'n dechrau o'r newydd neu'n fusnes sy'n bodoli eisoes, dewch i siarad â ni am eich busnes a'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol I archebu sgwrs 10 munud liciwch y ddolen:

<http://bit.ly/DBW-Event-Details>

PROFI OLRHAIN A DIOGELU (POD) TORFAEN

TORFAEN
COUNTY
BOROUGH



BWRDEISTREF
SIROL
TORFAEN

Ers yr haf diwethaf, mae Tîm Profi Orlhain a Diogelu (POD) Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi bod yn gweithio'n galed, yn cysylltu â miloedd o achosion a'u cysylltiadau, gan dorri cadwyni trosglwyddo Covid i ddarparu ail biler hynod effeithiol Llywodraeth Cymru o ymateb Cymru i bandemig Covid a chwarae eu rhan i gadw lefelau'r haint dan reolaeth yn Nhorfaen a Chymru yn gyffredinol.

Mae'r gwasanaeth, a adeiladwyd yn gyfan gwbl o'r dechrau, wrth i'r achosion gynyddu ac wrth i'r pandemig waethygu llynydd, yn rhan o bartneriaeth arloesol rhwng pum awdurdod lleol Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gydag arbenigedd gweithwyr proffesiynol Iechyd yr Amgylchedd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gefn iddo. Mae wedi bod yn llwyddiant 'Tîm Cymru' mewn gwirionedd diolch i dimau lleol a chenedlaethol yn gweithio law yn llaw i gyflawni cyfradd llwyddiant o 98% o bobl a gafodd eu holrhain fel achosion positif o COVID-19 a gadarnhawyd ledled Gwent.

Mae'r tîm yn gweithio'n rhannol o bell ac o swyddfa ac mae'n gyfuniad o staff presennol y cyngor a gafodd eu secondio o'u rolau ar draws y sefydliad ac unigolion lleol a gafodd eu recriwtio i lenwi'r nifer o rolau newydd a gafodd eu creu, wrth i'r tîm ehangu i ddelio â'r nifer cynyddol o achosion, gan gynnwys 'Tîm Gorfodi Covid' newydd sbon, a grëwyd ochr yn ochr â POD i ddarparu cefnogaeth 'ar lawr gwlad' i'r tîm ac i fusnesau lleol ledled y fwrdeistref.

Yn ddiweddar, mae'r tîm wedi cefnogi'r Tîm Diogelu'r Cyhoedd ehangach, wrth gyflwyno astudiaeth helaeth o adeiladau bwyd, gan gysylltu â phob adeilad bwyd ar draws y fwrdeistref, fel rhan o'r paratodau i ailagor y diwydiant.

Yn ogystal, mae cyfres o sesiynau gwybodaeth wedi'u cyflwyno i ystod o fusnesau yn yr ardal, mewn partneriaeth â Thîm Economi a

Mentergarwch y cyngor, yn rhedeg ochr yn ochr â rhaglen ailagor y Llywodraeth, fesul sector, wrth i reolau Covid gael eu llacio. Bwriad y sesiynau hyn yw darparu gwybodaeth am swyddogaethau gweithrediad POD, sut y gall busnesau weithio gyda POD i gadw eu staff a'u cwsmeriaid yn ddiogel a pha wersi y gellir eu dysgu o'r achosion a'r clystyrau o achosion a fu yn Nhorfaen dros y misoedd diwethaf.



Meddai Jason Austin, un o arweinyddion POD yn Nhorfaen: "Rwy'n falch iawn o'r hyn y mae'r tîm wedi'i gyflawni dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae wedi bod yn brofiad dysgu llwyr i bob un ohonom ac yn her enfawr, i greu ymgyrch a thîm o'r dechrau, gyda system TG newydd sbon ac i gadw ar flaen y cynnydd enfawr yn nifer yr achosion. Mae bod mewn sefyllfa o fod yn un o'r timau POD sy'n perfformio orau yng Nghymru, yn dyst i ymdrech ac ymroddiad pob aelod o'r tîm."

Bydd POD yn parhau o leiaf tan fis Medi, gan fod Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau cyllid i barhau â'r gwaith tan yr Hydref. Mae'r tîm bob amser yn hapus i helpu a byddent yn croesawu cyswllt gan unrhyw fusnes sydd ag ymholiadau neu gwestiynau, ac mae'n annog cwmnïau i gysylltu trwy unrhyw un o'r dulliau isod.

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau, gwestiynau neu os oes angen ein cymorth arnoch gyda mater sy'n ymwneud â Covid. Gallwch gysylltu â ni ar:

TrackandTrace@torfaen.gov.uk

01633 648173

CovidEnforcement@torfaen.gov.uk

